

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Brynsiencyn 2016 -2017

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i gyflwyno strategaethau fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Brynsiencyn ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £9,200

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gyflogi athrawes gydag arbenigedd mewn ADY a chyn athrawes Uned Dyslecsia Bangor i :

- ddarparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig mewn llythrennedd;
- ddarparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig mewn rhifedd;
- ddatblygu ymhellach y defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.